

Cylchlythyr Ebrill

Annwyl gydweithwyr ITM,

Mae Llwybrau at Ieithoedd Cymru yn cael blwyddyn academiaidd gyffrous ar hyn o bryd. Rydyn ni wedi cydweithio'n agos gydag ERW, CSC, Gwe ac EAS, ac rydyn ni wedi ymweld â mwy na 2000 o ddisgyblion ar draws Cymru. Mae ein Llysgenhadon Iaith wedi siarad â nhw am fanteision llwybr gyrfa mewn ieithoedd. Mae ein Llysgenhadon wedi bod yn ymweld â'u hysgolion, cynorthwyo mewn sesiynau iaith neu gymryd rhan mewn Ffeiriau Gyrfaedd a digwyddiadau eraill. Rydym hefyd wedi hyfforddi 442 o ddisgyblion sy'n Llysgenhadon Iaith, ac rydym wedi cynnal 8 Dosbarth Lefel-A i ddisgyblion Safon Uwch ac athrawon ledled Cymru. Rydym yn dal i edrych ymlaen at set arall o weithgareddau a digwyddiadau cyffrous a fydd yn cael eu cynnal yn y misoedd nesaf.

Rownd Derfynol Cystadleuaeth Genedlaethol *Spelling Bee*

Gyda mwy na 5,700 o ddisgyblion wedi'u cofrestru erbyn hyn, mae ein cystadleuaeth wedi gweld cynnydd o 76% eleni (roedd yna 3,264 y llynedd), gyda mwy na 50 o ysgolion yn cymryd rhan.

Cynhelir rownd derfynol genedlaethol cystadleuaeth 2016/17 ym Mhrifysgol Aberystwyth ddydd Mercher, 5 Gorffennaf 2017.

Bydd y disgyblion blwyddyn saith yn cystadlu i ddangos eu gwybodaeth o Ffrangeg, Sbaeneg, Almaeneg a Chymraeg ail iaith gan gyfieithu a sillafu geirfa y maent wedi'i dysgu. Mae'r gystadleuaeth wedi cydio yn nychymyg llawer o ysgolion a bu cystadlu brwd yn ystod y camau cynnar. Mae aeddfedrwydd y disgyblion a'u brwdfrydedd wedi creu cryn argraff arnom.

Adnoddau Ffilm a Llyfrau Safon Uwch

Mae Prifysgolion Bangor, Caerdydd ac Abertawe wedi datblygu, paratoi a recordio cyfres o fideos a /neu dafenni gan ein darlithwyr, fel cyfrwng i ddadansoddi pynciau allweddol o rai o'r ffilmiau newydd Lefel-A CBAC, manylebau a llyfrau. Ymdriniwyd â phrif themâu a chymeriadau, gyda'r nod o gryfhau dealltwriaeth y disgyblion ac ysgogi trafodaeth a meddwl ymhellach.

Mae pump o'r cyflwyniadau hyn wedi cael eu hariannu gan CADARN, gan weithio mewn partneriaeth â Llwybrau at Ieithoedd Cymru, a hefyd yn cael eu cyflwyno fel offer defnyddiol i ddatblygu meddwl dadansoddol. Mae'r set hon o adnoddau ar gael ar:

<http://routesintolanguagescymru.co.uk/posts/a-level-masterclasses/>

LingoMap

Fel y soniwyd yn flaenorol yn ein cylchlythyrau, mae gan gwefan Llwybrau at Ieithoedd Cymru dudalen benodedig i Lingo Map. Mae map yn cael ei arddangos gyda phinnau lleoli lle mae rhai o'n myfyrwyr ar eu trydedd flwyddyn dramor yn astudio ar hyn o bryd. Drwy glicio ar y pin bydd y defnyddiwr yn gweld eu proffil, yn ogystal â chyswllt at eu tudalen blog, lle maent yn ysgrifennu blogiau ar themâu

penodol TGAU. Ar hyn o bryd mae 18 o fyfyrwyr o Gaerdydd, Bangor, Abertawe ac Aberystwyth yn cymryd rhan.

Cymru, Ewrop a'r Byd

Bydd diwrnod iaith Cymru, Ewrop a'r Byd yn cael ei gynnal ym Mhrifysgol Bangor ar 28 Mehefin 2017. Mae partneriaid fel Gyrfa Cymru, Sefydliad Confucius, Europe Direct, Goethe Institut, Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru, Signature Leather a'r Ganolfan Astudiaethau Galisaidd yng Nghymru, yn darparu sesiynau ar gyfer ddisgyblion. Byddant yn cael cyfle i ddysgu am ieithoedd yn y gweithle, yn clywed myfyrwyr ieithoedd yn siarad am eu blwyddyn dramor, rhoi cynnig ar wersi blasu ieithoedd fel Mandarin, ymarfer ieithoedd maent eisoes yn eu dysgu, a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol gyda thema iaith iddynt (e.e. dawnsio, gemau iaith, ac ati).

Cyfryngau cymdeithasol a negeseuon e-bost

Rydym yn postio diweddariadau rheolaidd drwy ein sianelau cyfryngau cymdeithasol. Felly cofiwch ein dilyn ar Trydar @routescymru, ac os ydych yn gwybod am unrhyw gydweithwyr sy'n dymuno cael eu cynnwys ar y rhestr bostio Llwybrau i gael diweddariadau drwy'r e-bost, rhowch wybod i aelod o'r tîm.